# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
# RHONDDA CYNON TAF

## GWEITHGOR RHYDDFRAINT Y FWRDEISTREF

Cofnodion o gyfarfod y Gweithgor Rhyddfraint y Fwrdeistref a gynhaliwyd Dydd Iau, 15 Chwefror 2018 am 9.15 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Gweithgor Rhyddfraint y Fwrdeistref Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd M Tegg (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber

Y Cynghorydd P Jarman

### Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Mr A Wilkins, Pennaeth Materion Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol

**1 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Morgan a J James.

**2 datgan buddiant**

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

**3 ENWEBIADAU POSIBL AR GYFER RHYDDFRAINT Y FWRDEISTREF**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus yr Aelodau at ei adroddiad a oedd yn cynghori am enwebiad a gafodd ei dderbyn, gan ofyn i'r Aelodau ystyried caniatau dyfarniad 'Rhyddfraint y Fwrdeistref' i RAF Sain Tathan, am y rhesymau a gafodd eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Cymerodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y cyfle hefyd i roi gwybod i'r Aelodau bod enwebiadau yn cael eu derbyn ar hyn o bryd o ran y Gwobrau Dinasyddion Da, a bod y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau ar 28 Chwefror. Atgoffodd yr Aelodau y byddai'r enwebiadau yn cael eu hystyried trwy'r gweithgor hwn yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor.

Trafododd yr aelodau'r enwebiad a rhoddwyd ystyriaeth i ehangu'r enwebiad i gynnwys yr Awyrlu Brenhinol (RAF) ac RAF Sain Tathan er mwyn cydnabod y dynion a'r menywod yn Yr Awyrlu Brenhinol a wnaeth yr aberth eithaf dros ryddid y Wlad, a hefyd i nodi canmlwyddiant Yr Awyrlu Brenhinol ac 80 mlynedd o RAF Sain Tathan.

Yn dilyn trafodaethau am yr enwebiadau a gafodd eu cyflwyno ac am y rhesymau a amlinellwyd uchod **PENDERFYNODD** y grŵp yn unfrydol i argymell i'r Cyngor y dylai RAF Sain Tathan a'r Awyrlu Brenhinol dderbyn yr anrhydedd o Ryddfraint y Fwrdeistref.

Cafodd yr aelodau eu hysbysu y byddai cyfarfod pellach o'r gweithgor yn cael ei drefnu ar gyfer mis Mawrth i ystyried yr enwebiadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r Gwobrau Dinasyddion Da.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 am**

**Cllr M Tegg**
**Cadeirydd.**